**Ymateb Estyn i'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ddwy ffrwd iaith i gyfrwng Saesneg ac adeiladu ysgol newydd 480 â lle ynddi a 60 lle meithrin, cyfrwng Cymraeg, ger safle datblygiad tai.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn dim ond yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Cyflwyniad**

Dyma gynnig gan Gyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf i wella a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel rhan o ddatblygiad tai Llanilid, sef tua 1850 o dai ger Llanharan. Y cynnig yw newid cyfrwng iaith ysgol gynradd dwy ffrwd iaith yn ysgol cyfrwng Saesneg a chreu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.

**Crynodeb / Casgliad**

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a buddion**

Mae'r cynigiwr wedi darparu sail resymegol ar gyfer y cynnig ac mae'n esbonio sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â datblygiad o ryw 1850 o dai newydd yng nghyffiniau ysgol gynradd dwy ffrwd iaith bresennol Dolau a'i ymrwymiad i gyflawni yn unol â'r targedau yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r cynigiwr yn cydnabod manteision posibl y cynnig yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am ddigon o leoedd ysgol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Bydd adeiladau'r ddwy ysgol yn addas at eu diben, sef cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, egwyddorion dysgu sylfaen a darpariaeth i ddisgyblion bregus, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd adeiladau'r ddwy ysgol yn bodloni gofynion y ddeddf cydraddoldeb. Oherwydd y byddant mor agos at ei gilydd, sef tua 0.4 milltir, bydd cyfleoedd i rannu adnoddau allanol i ategu'r dysgu. Bydd adeiladu capasiti i addysgu yn y ddwy iaith yn galluogi meddianwyr newydd y tai i ddewis lleoliad addysg yn yr iaith o'u dewis o fewn dalgylch presennol Ysgol Gynradd Dolau, heb fod angen teithio i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf.

Mae'r awdurdod lleol yn nodi ychydig o anfanteision i'r cynnig. Er enghraifft, byddai'r newid yn iaith y ddarpariaeth yn Nolau yn golygu y byddai angen i'r disgyblion hynny sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg drosglwyddo i'r ysgol newydd, a allai fod yn anodd i ychydig o ddisgyblion. I oresgyn hyn, byddai'r cynigiwr yn darparu

cymorth wedi’i dargedu i bob disgybl o Ysgol Gynradd Dolau. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd a staff yr ysgol. Hefyd, mae’r cynigiwr yn nodi cynnydd posibl mewn traffig o gwmpas yr ysgol, y bydd angen ei reoli neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus cyfagos yn effeithiol.

Mae’r cynigiwr wedi ystyried ystod o ddewisiadau eraill addas ac mae wedi rhoi rhesymau da dros ddiystyru’r rhain.

Ymddengys fod yr awdurdod lleol wedi ystyried yn ddigonol effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol ac i ba raddau y byddai’r cynnig yn ategu’r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae’n cydnabod nad yw addysg cyfrwng Cymraeg wedi tyfu cystal â’r galw am leoedd cyfrwng Saesneg, fel yr amlinellir yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn ogystal, mae’n cydnabod bod oddeutu 240 o leoedd dros ben mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, er bod y rhain yn amrywio o fod tua 2.6 i 7.4 milltir i ffwrdd o Ddolau.

Mae’r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o’r cynnig hwn.

Mae’r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned fel rhan o’r cynnig hwn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae’r cynnig yn ystyried yr effaith y gallai’r cynigion ei chael ar ansawdd y ddarpariaeth a’r deilliannau i ddisgyblion yn y ddwy ysgol yn rhesymol o dda. Fodd bynnag, mae ond yn gwneud hyn o ran effaith adeilad mwy newydd, â chyfarpar gwell. Mae’r cynigiwr yn argymell bod y corff llywodraethol dros dro yn neilltuo swyddi islaw lefel uwch arweinydd i staff presennol Ysgol Gynradd Dolau. Bydd hyn yn galluogi staff i gael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol, cyn eu hysbysebu’n allanol, gan alluogi staff llwyddiannus i drosglwyddo i’r ysgolion newydd. Yn ogystal, mae’r cynnig yn nodi cyfleoedd am ddatblygiad staff mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, gyda staff yn gallu cael at gymorth gan adnoddau dynol yn ystod cyfnod y newid.

Mae’r cynigiwr wedi ystyried deilliannau arolygiad diweddaraf Ysgol Gynradd Dolau ym mis Hydref.

Mae’r cynigiwr yn nodi amcangyfrif cost gyfan y cynnig a ffrydiau cyllido gwahanol, fel y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Fodd bynnag, mae’n nodi mai dim ond costau manwl i ddarparu’r ddwy ysgol newydd ynghyd â rhai addasiadau ar raddfa fechan i gynyddu’r lleoedd yn Ysgol Gynradd Dolau fydd yn cael eu datblygu ochr yn ochr â’r broses ymgynghori.

Mae’r cynnig yn amlinellu’n addas y bydd darpariaeth briodol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael ei darparu mewn unrhyw ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Mae’n rhoi sicrwydd y bydd ‘cymorth wedi’i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Dolau’ os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.